Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
South Wales Fire and Rescue Service

SWYDDOG YSTADEGOL A DADANSODDI RISG

(DWY SWYDD)

RHIF Y SWYDD: NU198

37 AWR YR WYTHNOS

GRADD 11: £36,648 i £37,336

Mae dwy swydd wag barhaol wedi codi o fewn yr Adran Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Ein gweledigaeth yw gwneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg. Fel Swyddog Ystadegol a Dadansoddi Risg, byddwch chi'n ymuno â thîm sy'n canolbwyntio ar ddarparu dadansoddiad i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddadansoddi a dehongli data a gwybodaeth o bob rhan o'r Gwasanaeth gan gynnwys gwybodaeth rifiadol, ysgrifenedig, graffigol a geo-ofodol. Bydd gennych brofiad o werthuso a rheoli setiau data cymhleth, gan gydnabod pwysigrwydd mewnwelediadau data i sicrhau gwelliant mesuradwy. Bydd eich sgil yn gwneud data'n hygyrch i ddefnyddwyr ar bob lefel, gan gynnwys ein partneriaid a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn rheoli ac yn adrodd ar ein perfformiad yn effeithiol yn unol â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol ac yn darparu gwybodaeth amserol, o ansawdd i'n rhanddeiliaid.

Mae profiad o gyfres gymwysiadau MS Office yn enwedig Excel, Pwynt Pŵer ac Outlook yn hanfodol. Rydym yn defnyddio SQL a QGIS yn rheolaidd i ymholi a delweddu data, a byddai profiad o'r rhain neu systemau tebyg yn fuddiol ond darperir hyfforddiant. Mae sgiliau trefniadol rhagorol, cywirdeb a chynnig sylw i fanwl gywirdeb hefyd yn hanfodol i'r rôl. Bydd y swydd heriol hon yn gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n gydweithredol â phersonél Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac felly mae'r gallu i deithio'n ofynnol. Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y rôl swydd, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'n Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg, Suzanne Absalom drwy law e-bost: s-absalom@southwales-fire.gov.uk

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg. I weld y buddion o weithio gyda ni, ymwelwch â: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/buddion/

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad llwyddiannus gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal â phrawf cyffuriau ac alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **12:00 canol dydd, 03/04/2024.** Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein drwy law ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu drwy ein gwefan: https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddigwagdiweddaraf/ Os mai fersiwn papur sydd ei hangen, anfonwch e-bost at: personel@decymru-tan.gov.uk. Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd. Dylai pob ymgeisydd mewnol ymgeisio trwy law eu porth CORE, gan ddewis "Swyddi Gwag Cyfredol" o'r tab ar y chwith.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG